# Ysgol Tremeirchion

# 2025-2026

Enw: Ysgol Tremeirchion

Cyfeiriad: Tremeirchion

Llanelwy

Sir Ddinbych

LL17 0UN

Rhif ffôn: 01745 710 328

Gwefan: www.ysgoltremeirchion.cymru

E-bost: ysgol.tremeirchion@denbighshire.gov.uk

Trydar: @YsgTremeirchion

Facebook: Ysgol Tremeirchion Tremeirchion

Cadeirydd Y Corff Llywodraethol: Mrs Gwenan Williams

Math o ysgol: Ysgol Gynradd Gymraeg dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.



# Croeso
## gair gan y Pennaeth
## Mrs Bethan Davies

Croeso i brosbectws Ysgol Tremeirchion. Rydym yn ymfalchio fod gennym ysgol hapus a chartrefol lle caiff pob unigolyn ei barchu a'i drin yn gydradd.
Ein nod yw darparu cwricwlwm egniol a chynhwysfawr ble ddatbl;ygir yr awch i ddysgu a llwyddo ymysg ein dysgwyr.
Y dysgwyr sydd yn ganolog i'r ysgol ble rydym yn rhoi cyfleoedd iddynt dyfu'n oedolion cyfrifol a hyderus yn eu cymuned.
Ysgol Gymraeg ydi'r ysgol, Cymraeg yw prif iaith y dysgu ac ymdrechwn i gael pob plentyn yn gwbl ddwyieithog erbyn y byddant yn gadael am yr ysgol uwchradd.

Yr wyf yn ffodus iawn o gael arwain tim o staff sydd yn gweithio'n galed i uchafu potensial a safon ymysg ein dysgwyr. Credaf ei bod hi'n bwysig cydweithio gyda chwi rhieni/gwarchodwyr, y gymuned leol a chlwstwr ysgolion cynradd Sir Ddinbych er mwyn uchafu llwyddiant eich plentyn/plant.

Rwy'n  siwr y bydd eich plentyn/plant yn hapus iawn ac yn ffynnu o dan adain warcheidiol staff Ysgol Tremeirchion. Drwy dderbyn yr addysg a chyfleoedd orau posibl yn ystod eu siwrnai ysgol, bydd eich plentyn/plant yn barod ar gyfer y byd cyfnewidiol sydd ohoni.

*Mrs Bethan Davies*
Pennaeth

## Gweledigaeth yr Ysgol

**Fod pob plentyn sydd yn mynychu Ysgol Tremeirchion yn cael mynediad llawn i Cwricwlwm Ysgol Tremeirchion.**
**Sicrhewn fel Un Teulu gyda'n gilydd y cychwyn gorau phosib a Sylfaen gadarn mewn amgylchedd hapus, diogel, gofalgar a christnogol; mewn awyrgylch naturiol, ysgogol a heriol; hyn oll er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cyrraedd eu llawn potensial ac yn ddysgwyr gydol oes.**
**Rhown cyfleoedd a phrofiadau eang a chytbwys, profiadau wrth wneud, defnyddio ein hardal leol a holl rhanddeiliad yr Ysgol a'r gymuned.**
**Drwy fo yn Un teulu gyda'n gilydd ac yn dysgu a thyfu gyda'n gilydd fe fydd yn rhoi gwreiddiau cadarn, chwilfrydedd a brwdfrydedd I'n dysgwyr fod yn**

- **Ddysgwyr uchelgeisiol a galluog**
- **Cyfranwyr mentrus a chreadigol**
- **Ddinasyddion Egwyddorol a Gwybodus**
- **Unigolion Iach a Hyderus**



# Disgrifiad o'r Ysgol

Lleolir yr ysgol ym mhentref gwledig Tremeirchion sydd ar gyrion Llanelwy a Dinbych, Sir Ddinbych. Mae'n Ysgol benodeig Gymraeg dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru ac yn cynnig addysg Gymraeg i blant rhwng 3-11 oed. Mae 32.8% o ddisgyblion wedi'u magu a'r aelwydydd di-Gymraeg ac erbyn diwedd flwyddyn 6 yn hyderus iawn yn eu sgiliau Cymraeg. Mae'n ysgol ddyddiol, gyd-addysgol. Mae'r ysgol wedi ei rannu i 4 dosbarth.
Rydym yn gwasanaethu'r pentref ac ardaloedd cyfagos fel  Caerwys, Llanelwy, Trefnant, Waen, Rhuddlan, Trelawnyd, Lloc, Treffynnon, Cwm,  Nannerch, Llandyrnog, Afonwen, Bodfari

## Ymweliad a'r ysgol

Cyn cofrestru disgyblion yn Ysgol Tremeirchion anogir rhieni a gwarchodwyr i ymweld â'r ysgol. Mae'n bosib ffonio'r swyddfa rhwng 8:00yb a 4:00yp, gofynnwch am Mrs Bethan Davies neu Mrs Iona Hall (ysgrifenyddes) i drefnu apwyntiad ymweliad.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu Polisi derbyn disgyblion yr Awdurdod ac mae copi i'w weld ar wefan Cyngor Sir Ddinbych- School admissions | Denbighshire County Council

## Nosweithiau Cynnydd

| | |
|---|---|
| Tymor 1 | Noson Agored/Noson Rhieni |
| Tymor 2 | Noson Rhieni |
| Tymor 3 | Bore agored rhieni Meithrin |

Cynhelir 2 nosweithiau cynnydd er mwyn trafod cynnydd eich plentyn ble gyflwynir adroddiad byr ar gynnydd a chyfle i chwi drafod cynnydd eich plentyn/plant.

Fe fydd adroddiad llawn diwedd y flwyddyn ar gynnydd eich plentyn/plant ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Gorffennaf. Mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol os ydych yn poeni am ddatblygiad neu cynnydd eich plentyn/plant.

# Anghenion Addysgol Ychwanegol

**Y Pennaeth Mrs Bethan Davies a'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Ms Manon Tudur sy'n gyfrifol am gydlynu'r darparpariaeth briodol. Mae Ms Manon Tudur yn yr ysgol ar Ddydd Mercher.**

**Nod yr ysgol yw sicrhau fod holl ddysgwyr yr ysgol yn teimlo'n rhydd i ofyn am gymorth. Ein bod fel ysgol yn datblygu pob disgybl hyd at yr eithaf ei allu ac mae'r darpariaeth ar gael i gynorthwyo'r dysgwyr i wneud hynny.**
**(Gwelir Côd Anghenion Addysgol Ychwanegol am ragor o fanylion)**

# Pwy ydi Pwy?

## Pennaeth Mrs Bethan Davies

| Dosbarth | Athro | Staff Ategol |
|---|---|---|
| Lleweni<br>Meithrin | Mrs Rhian Jones | |
| Bryn Bella<br>Derbyn a<br>Blwyddyn 1 | Mrs Elinor Ellis | Mrs Delyth Potts<br>3 diwrnod<br>Mrs Eirlys Van Bodegom<br>3 diwrnod a hanner |
| Meirchion<br>Bl 2, 3 a 4 | Ms Lucy Edwards (3 diwrnod)<br>Mrs Bethan Davies (2 ddiwrnod) | Mrs Delyth Williams<br>5 diwrnod<br>Rhannu |
| Beuno<br>Blwyddyn 5 a 6 | Ms Bethan Barr | Mrs Delyth Williams<br>5 diwrnod Rhannu |

| | |
|---|---|
| Cymorthyddion Clwb Brecwast | Mrs Delyth Williams<br>Mrs Bethan Davies |
| Cymorthyddion Clwb ar ol Ysgol 3:30-5:25 | Miss Sara Evans a Miss Elan Williams<br>Mrs Bethan Davies |
| Ysgrifenyddes | Mrs Iona Hall<br>Boreau LLun, Mawrth, Iau<br>Trwy'r Dydd Dydd Gwener |
| Cydlynydd ADY | Manon Tudur<br>Dydd Mercher |
| Cogyddes | Mrs Christine Swift |

# TREFN DIWRNOD

| | |
|---|---|
| 9:00 - 10:40 | **C**ofrestru<br>Sesiwn 1<br>Amser Snac |
| 10:40 - 11:00 | Amser Chwarae |
| 11:00-12:00 | Sesiwn 2 |
| 1:00 - 2:00 | Sesiwn 3 |
| 2:00 - 2:15 | Amser Chwarae |
| 2:15 - 3:15 | Sesiwn 4 |

Diwrnod Meithrin 9:00 tan 11:30 gyda'r dewis o gael cinio a mynd i'r Cylch drwy drefniant.

## **Darpariaeth Cyn-Ysgol** - Cylch Meithrin

Arweinydd Cylch Meithrin - Ms Rhian Edwards 07752 226 034
Cymhorthyddion - Mrs Helen Jones a Mrs Sylvia Edwards
Cynhelir y cylch yn yr hen ysgol 8:30-4:30 yn ddyddiol
Cylch TI a FI boreau Gwener 9:00-11:00

# Clwb Brecwast

Arweinydd - Mrs Delyth Williams
Cymhorthydd - Mrs Bethan Davies
Bob Bore rhwng 7:50 yb a 8:25yb. Gweinir tost, grawnfwyd a llefrith.

# Clwb ar ol Ysgol

Arweinydd - Miss Sara Evans
Cymhorthydd - Miss Elan Williams (Dydd Llun i Mercher) Mrs B Davies (Iau a Gwener)
Dydd Llun i Ddydd Iau 3:30 yp - 5:25yp. £11 y sesiwn. Dydd Gwener 3:30-4:30 £8 y sesiwn
Cysylltwch gyda'r ysgol i archebu lle drwy ebost neu ffonio yn y boreau os yn bosib.

# PRESENOLDEB

Mae presenoldeb yn Ysgol Tremeirchion yn bwysig iawn. CANRAN PRESENOLDEB YR YSGOL AR HYN O BRYD  YW 94.9%
Disgwylir i'r plant gyrraedd yr ysgol ar amser, wedi eu gwisgo yn briodol ac yn barod i ddysgu.
Disgwylir i rhieni/gwarchodwyr gysylltu gyda'r ysgol mor fuan a phosib rhwng 8:30 a 9:00 i egluro absenoldeb eu plentyn.
Os yw'n apwyntiad meddygol, deintyddol ayyb gofynnwn am dystiolaeth o hyn.
Os nad oes rhywun wedi cysylltu erbyn 9:15 am absenoldeb mi fydd aelod o staff yr ysgol yn ffonio'r rhieni/gwarchodwr am eglurhad.

Gofynnwn i chi ein hysbysu o unrhyw apwyntiadau meddygol, deintyddol ayyb o flaen llaw os gwelwch yn dda drwy alwad ffon, ebost, llythyr neu sgwrs wyneb yn wyneb. Gofynnwn am gopi o'r llythyr apwyntiad os gwelwch yn dda.

Mae cyfraddau presenoldeb pob plentyn yn cael ei fonitro gan y Pennaeth a'r gwasanaethau cymdeithasol.

## GWYLIAU TEULUOL

Anogir i chi drefnu eich gwyliau teuluol y tu allan i ddyddiau'r tymor.
Gweler y Calendr am ddyddiadau'r flwyddyn academaidd nesaf.
Neu calendr ysgolion  y Sir Clwstwr Glan Clwyd.
Mae'n rhaid cael rheswm digonol i fynd ar wyliau teuluol ai nodi ar ffurflen gais gwyliau.
Ni fyddwn yn awdurdodi gwyliau.
Mi fyddwn yn dilyn POLISI NEWYDD SIR DDINBYCH O MEDI 2024.

# Iechyd a Salwch

Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu o unrhyw ALERGEDDAU, AFIECHYDON hir dymor.
Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu o unrhyw salwch drwy ebost neu alwad ffôn cyn 9:00yb.
Mae'n bwysig cadw plentyn adre am 48 awr ar ôl iddynt fod yn sal ddiwethaf os ydynt wedi bod yn taflu fyny, neu tro olaf iddynt gael dolur rhydd.
Os bydd eich plentyn yn mynd yn sal neu'n cael damwain yn yr ysgol yna byddwn yn eich hysbysu er mwyn i ni drafod camau ymhellach. Gofynnwn i chwi hefyd roi gwybod inni os oes unrhyw newid yn eich cyfeiriad neu rif ffôn.

# Meddyginiaeth

NI ddisgywlir i staff rhoi moddion oni bai ei fod yn moddion angenrheidiol fel pwmp asthma, insiwlin ar gyfer clefyd siwgr. Yn unol a'n polisi meddyginiaeth ar ein gwefan.
Os yw'n rheidrwydd i'ch plentyn gael meddyginiaeth, rhaid llenwi'r ffurflen meddyginiaeth er mwyn rhoi caniatâd i staff yr ysgol ei roi.
Os yw plentyn yn dioddef o Asthma yna gofynnwn fod pwmp asthma sbâr yn yr ysgol ac fe fydd yn cael ei roi a'i gadw'n ddiogel

## Nyrs ysgol

Bydd y nyrs yn ymweld a'r disgyblion tra'n dosbarth Derbyn i brofi clyw a golwg. Bydd cyfle i rieni ddod mewn i drafod gyda'r nyrs.

# Cinio Ysgol

Mae dysgwyr o flwyddyn Derbyn i flwyddyn 6 gyda'r hawl i ginio am ddim. Mae dewis o bryd poeth, taten neu frechdan o ddydd Llun i Ddydd Iau a pryd poeth yn unig ar ddydd Gwener . Rydym yn dilyn bwydlen gan Sir Ddinbych https://denbighshireschoolmeals.co.uk/cymraeg

Mae cyfle i blant dosbarth Meithrin gael cinio Ysgol am £3:20 y dydd.

# Bwyta'n iach



AMSER SNAC - Fel rhan o ysgolion iach canieteir i'r plant ddod a snac iachus i'w fwyta amser chwarae bore (rhestr syniadau ar ein gwefan)– NI CHANIATEIR SIOCLED A CHREISION.
NI CHANIATEIR CNAU oherwydd Alergeddau




# Potel ddŵr

Rydym yn annog fod y plant yn deall pwysigrwydd yfed digon o ddŵr.
Annogir y disgyblion ddod a photel o ddŵr i'r ysgol fel rhan o fenter Ysgolion iach. Caniateir botel ddŵr yn unig os gwelwch yn dda. Caiff y plant ddod a botel ddŵr yn ddyddiol i'r ysgol.

## Cyfathrebu rhwng rhieni/gwarchodwyr

**Mi fydd yr ysgol yn cyfathrebu Newyddion a digwyddiadau drwy Ap Classdojo. Bydd yr ysgol yn ebostio neu ffonio ynglyn a materion personol/preifat.**
**Gofynnwn i rhieni/gwarchodwyr gyfathrebu gyda'r ysgol drwy ebost ysgol.tremeirchion@denbighshire.gov.uk neu ffonio 01745 710328**

## Trefniadau gollwng a casglu eich plant/plentyn

Os ydych yn nol eich plant yn ystod y dydd gofynnwn i chi ganu'r gloch prif fynedfa os gwelwch yn dda.

Trefniadau gollwng plant yn y boreau ar ôl 8:30yb. Mae aelod o staff wrth y giât o 8:30yb. Rhieni, gwarchodwyr i barcio ar y ffordd ac NID o flaen giât yr ysgol. Bysiau Mini a thacsis i ollwng plant wrth y giât.
Trefniadau codi plant ar ddiwedd y dydd 3:15yp – Fe fydd staff yn hebrwng plant tacsis a bysiau yn gyntaf. Tacsis a bysiau mini i adael yn gyntaf.
Yna hebrwng plant at eu rhieni wrth y giât- rhieni i aros wrth ochr yr Eglwys.

## Iechyd a Diogelwch

Rydym yn dilyn Polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol. Hoffwn eich sicrhau fel rhieni a gwarchodwyr y gnawn popeth posibl i wneud yn siŵr bod eich plant yn ddiogel tra byddan nhw o dan ein gofal. Mae'r nifer cywir o staff allan ar ddyletswydd bob amser chwarae/ amser cinio. Rheolau pendant y mae pob plentyn yn ymwybodol ohonynt ac mae sawl aelod o staff wedi hyfforddi mewn Cymoth Cyntaf.
Mrs Delyth Williams, Mrs Elinor Ellis, Mrs Bethan Davies, Mrs Rhian Jones, Miss Sara Evans a Miss Elan Williams wedi eu hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf.

## Ymdrin a Chwynion

**Mae gan yr ysgol ethos agored a chyfeillgar ac mae croeso i chi drefnu i weld yr athrawon dosbarth neu'r Pennaeth i drafod unrhyw bryder.
Pan fo angen codi cwyn am unrhyw agwedd o waith yr ysgol, yn gyntaf dylid cysylltu gyda'r athro dosbarth i drafod. Os na chewch eich bodloni dylid wedyn ofyn i drafod eich cwyn gyda'r Pennaeth. Os na ellir bodloni'r mater o fewn yr ysgol gellid cysylltu gyda Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr. Gwelir Polisi Cwynion ar y wefan.**

## Cludiant Sir i'r ysgol

Mi fedrwch wneud cais i Sir Ddinbych am drafnidiaeth i'r ysgol os ydych yn byw mwy na 2 filltir i ffwrdd. Ar gael ar eu gwefan.

## Diogelu Plant

Mae gan yr ysgol ran bwysig i chwarae mewn gwarchod plant rhag cael eu cam-drin. Cadarnheir hyn gan bolisi Sir Ddinbych sy'n gosod canllawiau i aelodau o staff eu dilyn. Mae gennym ni fel ysgol ddyletswydd gyfreithiol i gyfeirio unrhyw bryder am gyflwr y plant i adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Dilynir canllawiau Anddiffyn Plant Cymru Gyfan i'r llythyren. Yr ysym yn cefnogi a hyrwyddo cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.

SWYDDOGION DIOGELU

1. Bethan Davies Pennaeth
2. Elinor Ellis Athrawes
3. Bethan Barr Athrawes
4. Gwenan Williams Llywodraethwraig

## Plant Mewn Gofal

**Cefnogir dysgwyr sy'n derbyn gofal drwy gyd-weithio'n agos gyda asianataethau a'r Awdurdod Lleol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau cefnogaeth a chymorth i'r dysgwyr hyn a'u gofalwyr.**

## Polisiau

**O fewn yr ysgol mae nifer o bolisïau statudol ac anstatudol sy'n hanfodol i rediad effeithiol yr ysgol. Ceir eu hadolygu gan y Corff Llywodraethol a'r athrawon yn rheolaidd. Gellir rhieni drefnu o flaen llaw i weld polisi ac mae rhai copïau er ein gwefan.**

# Gwisg Ysgol

Disgwyliwn i bod disgybl wisgo gwisg ysgol os gwelwch yn dda. Ein polisi yw gwneud y wisg ysgol mor rhesymol ac ymarferol a phosibl. Rydym gyda bocs o wisg ysgol ail law yn yr ysgol- cysylltwch am fwy o fanylion. Siwmper Las, crys polo glas golau, trowsus, sgert, siorts, ysgol llwyd neu du; ffrog las a gwyn, esgidiau duon. Os gwelwch yn dda rhowch enw'r plentyn ar y wisg.




# Gwisg Addysg Gorfforol

Hwdi du, crys T gwyn, siorts neu trowsus corfforol du, treinyrs. Os gwelwch yn dda rhowch enw ar y wisg.

Gofynnir i'r plant wisgo eu gwisg Addysg Gorfforol ar ddyddiau penodol- fe fydd yr athro dosbarth yn eich hysbysu pa ddyddiau.

Siwmperi ysgol a hwdis ar gael drwy www.schoolshopdirect.co.uk



GRANT HANFODION YSGOL - MAE POSIB GWNEUD CAIS AM GYMORTH Ariannol o hyd at £200 ar gyfer Gwisg ysgol, gweithgareddau ysgol gwersi offerynnau, hanfodion ystafell dosbarth ee beiros, pensiliau , bagiau ysgol.
https://www.llyw.cymru/hawliwch-help-gyda-chostau-ysgol

# Iechyd a LLes






Yn ystod y flwyddyn caiff y plant gyfle i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau: Mabolgampau ysgol, mabolgampau Dyffryn Clwyd, Urdd, Pel-droed, Rygbi ar y traeth, Criced, Pel-rwyd, mwy





Cyn i bob plentyn adael yr ysgol ym mlwyddyn 6 , rydym yn sicrhau ei bod wedi cael gwersi beicio ac yn gallu nofio 25m heb gymorth. Felly mae gwersi nofio o flwyddyn 2.

# Cwricwlwm i Gymru 2022

Ein nod yn Ysgol Tremeirchion yw creu a chyflwyno Cwricwlwm cyffrous ac amrywiol i'n dysgwyr er mwyn sicrhau ystod o brofiadau i'n dysgwyr. Dilynir themâu ar draws yr ysgol. Mae'r Cwricwlwm newydd wedi'i gynllunio i wireddu'r 4 diben sef datblygu eich plant/plentyn i ddod yn

Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
Yn gyfrannwr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
Dinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i chwarae rhan yng Nghymru a'r byd;
Unigolyn iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

Defnyddir arbenigedd staff i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol drwy waith grwpiau llai a chefnogaeth fel bo'r angen.

Sicrhewn fod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd cyfartal a phawb arall

## Llais y Dysgwyr


Mae'r holl dysgwyr gyda mewnbwn i gynllunio y cwricwlwm.







## Cyngor ysgol

Mae'r Cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn weithgar iawn yn trefnu gweithgareddau amrywiol ar gyfer plant, rhieni a'r gymuned. Megis Bingo Nadolig, Diwrnod Plant mewn Angen.



## Eco Gyngor

Mae'r Cyngor Eco'n weithgar iawn yn ailgylchu , compostio, edrych ar ôl yr ysgol. Rydym wedi ennill Faner Werdd.







## Criw Cymraeg

Criw gweithgar iawn sydd yn hybu defnydd o'r Iaith Gymraeg tu allan i'r ysgol. Maent yn cydweithio gyda Ysgolion eraill y clwstwr. Maent yn rhan o addysgu Cymraeg yn y Gymuned gyda Menter Iaith Dinbych. Rydym yn hybu Cymreictod e.e Diwrnod cariad @Urdd, Dydd Miwsig Cymru.

## Llysgenhadon Chwaraeon



Mae'r Llysgenhadon wedi cael hyfforddiant 'Active Minds' ac wedi bod yn addysgu sgiliau i weddill y dysgwyr. Maent yn trefnu gweithgareddau Addysg Gorfforol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.





# Gweithgareddau Allgyrsiol

Rydym yn gwahodd Gwasanaeth Cerdd Dinbych atom i roi gwersi offerynnol, cydweithio a gwahodd asiantaethau, rhieni i siarad a chynnal gweithgareddau gyda'r plant.










## Ymweliadau Preswyl

Rydym yn cynnig ymweliadau preswyl i flynyddoedd 5 a 6 i Gaerdydd neu Langrannog er mwyn rhoi profiadau a chyfleoedd cymdeithasol gyda ysgol ein clwstwr a dysgu am ein hunaniaeth.









## Dysgu Digidol

Mae ganddo ni nifer o adnoddau Dysgu digidol ardderchog, rydym yn annog ein dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau ar draws y cwricwlwm. Drwy ddefnyddio ipads, gliniaduron, camerâu digidol, microbit, beebot, ayyb er mwyn cyfoethogi addysg a phrofiadau'r dysgwyr.



## Disgyblaeth




Ein hamcan yn yr ysgol yw datblygu ymdeimlad o hunan-ddisgyblaeth yn ein dysgwyr am eu gweithredoedd. Rydym yn ymfalchïo yn safon uchel yr ymddygiad a ddangosir gan ein dysgwyr. Mae nhw'n dangos cwrteisi a charedigrwydd tuag at rhieni,ymwelwyr, staff a thuag at eu hunain.



# Ysgol Goedwig

**Mae ein amgylchedd, gardd, cae chwarae, dosbarth bach yn le delfrydol i'r holl dysgwyr fanteisio ar addysgu a dysgu tu allan. Mae yn le gwych i'n dysgwyr gael gwersi ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cefnogi Cwricwlwm Ysgol Tremeirchion.**

**Rydym yn cynnal gwersi Ysgol Goedwig ar bnawn dydd Mercher.**











## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Cyflwynir Addysg Cydberthynas a rhywioldeb yn unol a'r cod gan Llywodraeth Cymru a pholisi Sir Ddinbych. Defnyddir rhaglen 'Tyfu Fyny' a Jigsaw i gyflwyno'r agweddau'r maes yma. Mae'r gwersi'n briodol i oed a gallu'r dysgwyr ac yn plethu mewn i waith y dosbarthiadau

# Trefniadau Asesu

Mae CIG yn nodi ein bod yn asesu am dri rheswm:

- cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd
- nodi, cipio a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- deall cynnydd grwp er mwyn myfyrio ar arfer.

Mae asesu yn allweddol i gefnogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar hyd yr un continwwm ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio i gyrraedd eu potensial.

Rydym yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu fel diben cyffredinol i gefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd. Mae ganddo ni systemau tracio ein hunain yn yr ysgol.

Mae ein hasesiadau'n cefnogi cynnydd dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd; yn nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr dros amser. Fe gedwir sampl o waith ysgrifennu, llafar, darllen a rhifedd yn ogystal a'u datblygiad llesol ac emosiynol.

Rydym yn asesu a monitro lles dysgwyr blwyddyn 3-6 drwy PASS er mwyn adnabod a thargedu anghenion lles ein dysgwyr.

# Cyswllt gyda'r Eglwys a Chydaddoli



Cawn wasanaethau boreol yn y dosbarthiadau a dau wasanaeth torfol mewn dosbarth neu yn yr Eglwys yn wythnosol. Bydd pob dosbarth yn cyflwyno gwasanaeth yn ei dro.
Mae gan yr ysgol gyswllt agos gyda'r Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy. Yn dymhorol mae Mr Gareth Williams, ein ymwelydd Esgob yn galw draw i gynnal gwasanaeth a trafod gyda'r dysgwyr a staff.
Mae'r Parch Rebecca Sparey- Taylor, Parch Andras Iago, Mrs Cathrin Roberts a Sara Dafydd Agor y Llyfr yn cynnal gwasanaethau yn dymhorol.
Rydym yn cynnal gwasanaethau Diolchgarwch a Nadolig ar gyfer ein cymuned.



Rydym yn cynnal sioeau Mewn Cymeriad Hanes William Morgan, gweithgareddau gan Sara Dafydd agor y Llyfr.



# Cyswllt gyda'r gymuned

Ysgrifennir ar gyfer Newyddion Tremeirchion i'r 'Parish News a'r Glannau
Trefnir gweithgareddau Bingo Nadolig, Goleuo ffenest Nadolig, Yr Heddlu, Paid Cyffwrdd Dweud, Diwrnod Mabolgampau.





## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon brwdfrydig iawn sydd wedi casglu miloedd o bunnoedd dros y blynyddoedd i brynu adnoddau cefnogi i'r ysgol a'n dysgwyr. Gwerthfawrogwn eu gwaith a'r arian a godi'r i'r ysgol yn fawr iawn. Ceir cyfarfodydd tymhorol i drefnu gweithgareddau cymdeithasol er mwyn codi arian.

Esiamplau o ddigwyddiadau – Disgo Calan Gaeaf, Bingo'r Pasg, Barbeciw a ffair Haf.



# Cyswllt Ysgol i Ysgol

Mi fyddwn yn cydweithio gyda Clwstwr o ysgolion Cynradd Ysgol Pant Pastynog, Ysgol Gymraeg Henllan, Ysgol Twm o'r Nant, Ysgol Dewi Sant ac Ysgol Y Llys.
Ac hefyd yn cydweithio gyda Ysgol Uwchradd Glan Clwyd er mwyn trosglwyddo.
Rydym yn cynnal llawer o weithgareddau megis Gweithdy TGCH, Gweithdy Siarter Iaith, Gweithdy Cerdd, Gweithdy Radio.
Bu ysgolion Henllan a Phant Pastynog yma'n cynnal Mabolgampau Olympaidd.





# Urdd

Rydym yn cymryd rhan yn weithgareddau Cogurdd, Eisteddfod, Dawns, Chwaraeon yr Urdd.
Cost ymaelodaeth yr  Urdd Yw £10 y plentyn, neu mae gostyngiad i deuluoedd.
https://www.urdd.cymru/

# Gwersi Offerynnau

Rydym yn cynnig gwersi offerynnau Piano, Gitar, ffidil a mwy os oes angen. Drwy gwasanaeth Cerdd y Sir.
Cost yw £9 y wers/£90 y tymor.

# Polisi Codi tâl am weithgareddau

Polisi Codi tâl y Sir.
Codi'r tâl llawn ar rieni/gwarchodwyr am y canlynol:
Am unrhyw ddifrod i eiddo'r ysgol a wneir yn fwriadol gan eich plentyn,
Costau ymweliadau preswyl a drefnir gan yr Ysgol neu'r Awdurdod Addysg Leol (oddigerth pan roddir hawl i eithro rhag talu)
Costau cludiant yn ôl a blaen i'r pwll nofio.
Costau Gwersi Offerynnol gan yr Awdurdod Lleol.

Gofynnir am gyfranidau gwirfoddol tuag at gostau ymweliadau addysgol; ymweliadau theatr, cost gwahodd ymwelwyr/perfformwyr/grwpiau theatrig i'r ysgol.